Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Canllaw hwylus i hawlfraint a metadata



Gwers 3

# Cyhoeddi eich cynnwys eich hun gyda metadata

## Trosolwg

# Canllaw hwylus i hawlfraint a metadata

Mae'r cynlluniau gwersi hyn yn darparu gweithgareddau cam wrth gam i arwain disgyblion drwy'r ystyriaethau a'r penderfyniadau y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud cyn cyhoeddi delwedd, fideo neu recordiad sain ar lein. Mae'r gwersi'n dechrau yn syml, gan osgoi materion trwyddedu cymhleth, yna cyflwynir elfennau mwy cymhleth.

Rydym wedi cynllunio'r 6 gwers hyn i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau digidol yn y meysydd a amlinellir yn y **Fframwaith Cymhwysedd Digidol**, gan ganolbwyntio'n benodol ar hawlfraint a metadata. Ar ddechrau pob cynllun gwers rydym yn nodi **Llinynnau ac Elfennau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol** sy'n cael eu cwmpasu.

**Mae gwersi 1-3** wedi'u hanelu at Gyfnod Allweddol 2 ac maen nhw'n helpu disgyblion i gael dealltwriaeth sylfaenol o fetadata a hawlfraint.

**Mae gwersi 4-6** wedi'i hanelu at Gyfnod Allweddol 3 ac yn edrych ar rôl hawlfraint wrth ddefnyddio gwaith creadigol pobl eraill ac wrth ddefnyddio ffotograffau o bobl. Gall rhywfaint o'r wybodaeth yng ngwersi 4 - 6 fod yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd.

## Cyn i chi ddechrau

- Mae Casgliad y Werin Cymru yn wefan llawn ffotograffau, dogfennau, fideos a straeon diddorol am hanes, diwylliant a phobl Cymru
- I gael gwybodaeth am hyn ewch i'r adran Blwch Offer i Athrawon sy'n dangos sut i gofrestru a sut y gall disgyblion ddefnyddio'r wefan i wella eu sgiliau cymhwysedd digidol **www.casgliadywerin.cymru/addysg/digidol**
- Mae'r sgiliau a ddatblygir wrth greu cyfrif ac uwchlwytho eitemau i wefan Casgliad y Werin Cymru yn cyfateb yn fanwl â llawer o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Dysgwch sut i uwchlwytho eitemau a chreu casgliadau gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr **www.casgliadywerin.cymru/content/y-ganolfan-gymorth**

## Gwers 3

# Cyhoeddi eich cynnwys eich hun gyda metadata

**Amcan y Wers:** Cyhoeddi casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru sy'n cynnwys metadata da a gwybodaeth hawlfraint gywir

**Fframwaith Cymhwysedd Digidol**
Cyfnod Allweddol 2
**Dinasyddiaeth**: 1.1 Hunaniaeth, delwedd ac enw da; 1.3 Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth
**Rhyngweithio a chydweithio**: 2.2 Cydweithio, 2.3 Storio a rhannu
**Cynhyrchu**: 3.2 Creu; 3.3 Gwerthuso a gwella

# Negeseuon Allweddol

- Mae Casgliad y Werin Cymru yn wefan llawn ffotograffau, dogfennau, fideos a straeon diddorol am hanes, diwylliant a phobl Cymru
- Mae'n lle gwych i ddysgu am hanes
- Gallwch greu eich cyfrif eich hun ac ychwanegu at hanes digidol Cymru

**Negeseuon Allweddol**

- Mae dwy ddogfen ychwanegol sy'n cefnogi'r wers hon; Templed Metadata ac Enghraifft o Fetadata Da, sydd hefyd yn cael eu defnyddio yng ngwers 2. Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar ddiwedd y wers hon
- Gallai'r wers hon bara am nifer o oriau gan y bydd angen i bob disgybl sganio delwedd y maent wedi ei chreu, ei huwchlwytho i wefan Casgliad y Werin Cymru ac ychwanegu eu metadata. Efallai y byddwch yn dymuno rhannu'r wers yn sesiynau byrrach. Os hoffech greu cynnwys newydd i'w uwchlwytho, yn hytrach na defnyddio delweddau o wersi 1 a 2, dylech ganiatáu amser ar gyfer hyn
- Gall y gwaith paratoi i'r athro gymryd 1-2 awr (gweler isod), a dylai hyn gael ei gwblhau cyn y wers. Ar ôl i chi wneud hyn, byddwch yn gallu dysgu eich disgyblion sut i ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru ar gyfer y wers hon, ac unrhyw brosiectau a wnewch yn y dyfodol
- Rydym wedi creu Rhestr wirio i athrawon i'ch helpu i asesu gwybodaeth a sgiliau eich disgyblion ar ôl iddyn nhw gwblhau'r wers hon. Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar Hwb: Rhestr wirio i athrawon, neu ar ddiwedd y wers hon

**Gwaith Paratoi i'r Athro:**

- Crëwch gyfrif ar gyfer eich ysgol neu ddosbarth. I gael gwybodaeth am hyn ewch i'r adran Blwch Offer i Athrawon sy'n dangos sut i gofrestru a sut y gall disgyblion ddefnyddio'r wefan i wella eu sgiliau cymhwysedd digidol
- Dysgwch sut i uwchlwytho eitemau a chreu casgliadau gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr
- GAIR O GYNGOR: Os oes dosbarthiadau eraill yn eich ysgol yn creu cyfrifon dosbarth hefyd, mae'n syniad da i benderfynu ymlaen llaw ar enwau cyfrifon

Nawr rydych yn barod i gyhoeddi casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru gyda'ch dosbarth. Yng ngwers 1, fe wnaeth y disgyblion ddarlun o'u hoff le yn yr ardal. Gan ddefnyddio'r delweddau hyn gallwch greu casgliad am yr hyn y mae eich disgyblion yn ei hoffi yn eich ardal chi. Pan fyddan nhw'n hŷn gallan nhw edrych yn ôl ar hyn a gweld beth oedd yn boblogaidd yn eu tref ar y pryd. Gan fod hwn yn weithgaredd 'darlunio cyflym' efallai y bydd y disgyblion eisiau treulio ychydig mwy o amser ar eu darlun.

Neu, gallwch greu darluniau newydd ar bwnc o'ch dewis ac uwchlwytho'r prosiect hwnnw i wefan Casgliad y Werin Cymru yn lle hynny.

## Tasg 1

Dangoswch wefan Casgliad y Werin Cymru i'r disgyblion.

**Esboniwch:**

- Ei bod yn wefan llawn ffotograffau, dogfennau, fideos a straeon diddorol am hanes, diwylliant a phobl Cymru
- Ei bod yn rhywle lle y gall pob amgueddfa, llyfrgell ac archifdy yng Nghymru rannu ffotograffau a dogfennau diddorol
- Ei bod yn lle gwych i ddysgu am hanes
- Y gallan nhw greu eu cyfrif eu hunain ac ychwanegu at hanes digidol Cymru
- Fel dosbarth y byddan nhw'n creu casgliad gan ddefnyddio eu darluniau eu hunain

## Tasg 2

Gofynnwch i'r disgyblion adolygu'r gwaith a wnaethant yng ngwersi 1 a 2. Mewn trafodaeth grŵp gofynnwch iddyn nhw grynhoi'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu am hawlfraint a metadata.

## Tasg 3

Os ydych yn penderfynu defnyddio'r darluniau o wers 1, yna bydd y disgyblion eisoes wedi cwblhau'r Templed Metadata yng ngwers 2.
Os ydych yn defnyddio darluniau newydd, gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r Templed Metadata, gan ychwanegu gwybodaeth hawlfraint a metadata ar gyfer eu darlun newydd. Gallan nhw edrych ar yr Enghraifft o Fetadata Da i'w helpu.

Gofynnwch i'r disgyblion sganio eu darluniau i greu ffeil ddigidol y gallant ei huwchlwytho i'r wefan. Gofynnwch i'r disgyblion gadw eu ffeil mewn lle priodol fel y gallant ddod o hyd iddi yn ddiweddarach (e.e. ffolder prosiect ar y cyfrifiadur pen desg). Ar y cam hwn, mae'n bwysig bod y disgyblion yn defnyddio eu gwaith eu hunain. Dyma'r math symlaf o hawlfraint i ddelio ag ef am eu bod yn berchen ar yr hawlfraint. Gallwch ddewis defnyddio cerdd fel y gwnaeth Ysgol Gynradd Goetre

## Tasg 4

Dangoswch i'r disgyblion sut i uwchlwytho eu delweddau i'ch cyfrif ysgol ar wefan Casgliad y Werin Cymru. Caniatewch i bob disgybl lwytho eu delweddau ac ychwanegwch y wybodaeth hawlfraint a metadata o'u Templed Metadata. Esboniwch ei bod yn bwysig eu bod yn cadw'r gwaith ar ffurf drafft nes bod yr athrawon yn fodlon cyhoeddi'r casgliad.

## Tasg 5

Adolygwch bob delwedd a'r data cysylltiedig gyda'r dosbarth cyn cyhoeddi. Dilynwch y camau i greu casgliad. Gallwch rannu'r casgliad gyda dosbarthiadau eraill yn yr ysgol, teuluoedd a ffrindiau'r disgyblion ac unrhyw un arall rydych yn ei adnabod!

Taflen waith

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

# Templed Metadata

## Metadata Sylfaenol

*Teitl:* ..................................................................................................

*Disgrifiad:* ..................................................................................................

..................................................................................................

..................................................................................................

*Perchennog Presennol:* ..................................................................................................

*Crëwr Gwreiddiol:* ..................................................................................................

*Tagiau:* ..................................................................................................

## Gwybodaeth am Hawlfraint (Trwyddedu)

*Math o hawl:* ..................................................................................................

*Deiliad yr hawl:* ..................................................................................................

*Dyddiad yr hawl:* ..................................................................................................

# Templed Metadata

## Disgrifiadau i Athrawon

***Teitl:*** *Ysgrifennwch* ***beth*** *yma. Cadwch o'n fyr ac yn berthnasol.*

***Disgrifiad:*** *Ysgrifennwch* ***pwy***, ***beth***, ***pryd*** *a* ***ble*** *yma. Disgrifiwch yr hyn ydych chi'n ei weld neu glywed. Meddyliwch hefyd* ***pam*** *bod yr eitem hon yn ddiddorol.*

***Perchennog Presennol:*** *Y person sy'n berchen ar y gwaith ar hyn o bryd (e.e. y disgybl neu'r ysgol).*

***Crëwr Gwreiddiol:*** *Y person wnaeth greu'r gwaith creadigol (e.e. y disgybl)*

***Tagiau:*** *Geiriau i ychwanegu at eich gwaith i helpu pobl i chwilio amdano ar y we.*

***Math o hawl:*** *Hawlfraint fel arfer. Mae mathau eraill o hawl yn cynnwys hawliau perfformio a hawliau dylunio.*

***Deiliad yr hawl:*** *Y person sy'n berchen yr hawlfraint, fel arfer y crëwr.*

***Dyddiad yr hawl:*** *Y dyddiad y cafodd y gwaith ei greu.*

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

# Metadata Dda

Metadata yw'r wybodaeth neu'r geiriau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio gwaith creadigol ar-lein. Mae pob delwedd, fideo, clip sain neu ddogfen angen metadata. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i grwpio eich gwaith gydag eitemau tebyg eraill. Mae metadata yn helpu pobl i ddod o hyd i'ch gwaith wrth chwilio ar-lein.

| Pwy | Beth | Pryd | Ble |
|---|---|---|---|

**Teitl**: *Ysgrifennwch **beth** yma. Cadwch o'n fyr ac yn berthnasol.*

**Disgrifiad**: *Ysgrifennwch **pwy**, **beth**, **pryd** a **ble** yma. Disgrifiwch yr hyn ydych chi'n ei weld neu glywed. Meddyliwch hefyd pam bod yr eitem hon yn ddiddorol.*

## Enghraifft

### Atgynhyrchiad o fasg Rhufeinig



Atgynhyrchiad o fasg a wisgwyd gan y marchoglu yn ystod arddangosfeydd yn Amgueddfa leng Rufeinig Cymru. Roedd masgiau fel hyn yn cael eu gwisgo gan farchoglu'r Rhufeiniaid yn ystod arddangosfeydd mewn llefydd fel yr amffitheatr yng Nghaerllion.

Yn ystod y Satwrnalia, roedd Rhufeiniaid yn diddanu eu hunain gyda gemau a dis, ond hefyd gyda digwyddiadau fel ymladd gladiatoriaid yn yr amffitheatr. Gwrthrych wedi eu dewis gan Ysgol Somerton i gyd-fynd gyda'u fidio am y Satwrnalia. Roedd hyn yn rhan o'r Diwrnod Meddiannu 'Kids in Museums' 2016 yn yr Amgueddfa Leng Rufeinig Cymru.

# Gwers 3: Rhestr wirio i athrawon

Bydd y rhestr wirio hon i athrawon yn eich helpu i asesu gwybodaeth a sgiliau eich disgyblion ar ôl iddyn nhw gwblhau Gwers 3: Cyhoeddi eich cynnwys eich hun gyda metadata

Enw'r disgybl: ……………………………………………..................

## Fel rhan o wers 3 mae pob disgybl wedi:

- ☐ Adolygu'r gwaith a wnaethant yng ngwersi 1 a 2
- ☐ Cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu am hawlfraint a metadata
- ☐ Ymchwilio wefan Casgliad y Werin Cymru
- ☐ Creu delwedd yn y dosbarth i'w llwytho i Gasgliad y Werin Cymru
- ☐ Cwblhau'r Templed Metadata ar gyfer eu darlun
- ☐ Sganio eu darluniau i greu ffeil ddigidol
- ☐ Cadw eu ffeil ddigidol mewn lle priodol er mwyn iddyn nhw allu dod o hyd iddi yn ddiweddarach
- ☐ Uwchlwytho eu delweddau i'ch cyfrif ysgol ar wefan Casgliad y Werin
- ☐ Ychwanegu gwybodaeth hawlfraint a metadata o'u Templed Metadata at eu delwedd ar wefan Casgliad y Werin
- ☐ Cadw eu gwaith fel drafft ar wefan Casgliad y Werin
- ☐ Adolygu pob delwedd a'r data cysylltiedig fel dosbarth cyn eu cyhoeddi